------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Iau, 19 Mehefin 2014**

Amser:
**09.00**

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
**Sarah Beasley**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8032
pwyllgor.CCLll@cymru.gov.uk

## Agenda

**Cyfarfod preifat cyn y prif gyfarfod (09.00-09.15)**

### 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

### 2 Sesiwn graffu gyffredinol: Y Gweinidog Tai ac Adfywio (9.15 - 10.15)

(Tudalennau 1 - 22)
Carl Sargeant AM, Gweinidog Tai ac Adfywio
John Howells, Cyfarwyddwr Yr Adran Tai ac Adfywio
Kath Palmer, Dirprwy Cyfarwyddwr Yr Is-Adran Cartrefi a Lleoedd

### 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: eitemau 4, 5 a 6

### 4 Masnachu pobl: trafod llythyr drafft at y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth (10.15 - 10.40) (Tudalennau 23 - 31)

## 5 Trafod gohebiaeth gan y Pwyllgor Busnes (10.40 - 10.45) (Tudalennau 32 - 36)

## 6 Ystyriaeth o ohebiaeth gan Darren Millar AC mewn perthynas â'r Bil Safleoedd Carafanau Gwyliau (Cymru) (10.45 - 10.50) (Tudalennau 37 - 38)

**Egwyl (10.50 - 11.00)**

## 7 Sesiwn graffu gyffredinol: Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi (11.00 - 12.15) (Tudalennau 39 - 63)

Jeff Cuthbert AC, Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Kate Cassidy, Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchi Tlodi
Eleanor Marks, Dirprwy Cyfarwyddwr Yr Is-Adran Cymunedau

## 8 Papurau i'w nodi (Tudalennau 64 - 67)

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

## 10 Sesiwn graffu gyffredinol: Y Gweinidog Tai ac Adfywio - trafod y dystiolaeth (12.15 - 12.25)

## 11 Sesiwn graffu gyffredinol: Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi - trafod y dystiolaeth (12.25 - 12.35)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol: Craffu Cyffredinol – 19 Mehefin 2014**

**Papur Tystiolaeth**

Mae gan yr Adran Tai ac Adfywio gyfraniad hanfodol i'w wneud i Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae ein rhaglenni tai ac adfywio'n gwella ansawdd bywyd rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. Ceir effaith economaidd yn ogystal ag effaith gymdeithasol trwy wella Gwasanaethau Cynllunio a rhoi hwb i'r cyflenwad tai. Fy mlaenoriaeth bennaf felly yw mynd i'r afael â phrinder tai trwy sicrhau bod tai fforddiadwy o ansawdd ar gael i bobl, a thrwy hynny helpu i drechu tlodi, gwella iechyd a lles, a chefnogi swyddi a thwf. Rwyf hefyd yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i leihau effaith diwygiadau Llywodraeth y DU i'r gyfundrefn les ar y rhai tlotaf a'r mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Mae'r papur hwn yn amlinellu'r meysydd yr wyf wedi'u nodi ar gyfer camau blaenoriaeth a'r arian sydd wedi cael ei ddyrannu i'w cyflawni.

## 1. <u>Cynyddu Cyflenwad Tai a Dewis o Dai</u>

Mewn dwy flynedd yn unig o'r weinyddiaeth hon, mae 4,474 o unedau tau fforddiadwy wedi cael eu darparu ledled Cymru – 60 y cant o'r targed a nodwyd yn flaenorol ar gyfer tymor y Llywodraeth hon.

Roeddwn felly'n falch iawn o allu cyhoeddi, ar 4 Mawrth, darged uwch o 10,000 o dai fforddiadwy ar gyfer tymor y Llywodraeth hon. Er mwyn sicrhau y gallwn gyflawni'r targed pwysig hwn rwyf wedi sefydlu cytundeb darparu cyflenwad tai gyda Chartrefi Cymunedol Cymru, yn nodi ymrwymiadau gan Lywodraeth Cymru a'r sector cymdeithasau tai. Rwy'n croesawu'r ffaith bod ein partneriaeth gyda chymdeithasau tai yng Nghymru wedi dwysáu. Fel llywodraeth byddwn yn parhau i ddefnyddio grantiau llywodraeth er mwyn datblygu tai newydd fforddiadwy. Yn 2014-15 mae'r Rhaglen Grant Tai Cymdeithasol yn £58.301 miliwn (yn ôl y gyllideb derfynol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013).

Rydym hefyd yn cefnogi datblygiad ym maes tai'r farchnad agored. Roedd lansiad Cymorth i Brynu - Cymru ym mis Ionawr 2014 yn elfen hanfodol o'r cymorth hwn. Erbyn mis Ebrill 2016 mae disgwyl i'r cynllun gefnogi gwerthiant 5,000 o gartrefi ledled Cymru. Rydym wedi gweld galw mawr am y cynllun rhannu ecwiti a bellach mae gennym dros 60 o ddatblygwyr wedi cofrestru gyda'r cynllun ac yn cynnig benthyciadau rhannu ecwiti Cymorth i Brynu - Cymru fel rhan o'u datblygiadau.

Trwy gynyddu'r cyflenwad o adeiladau newydd bydd Cymorth i Brynu - Cymru yn cefnogi miloedd o swyddi yn ogystal â chyfleoedd hyfforddiant a phrentisiaethau ac yn ysgogi twf yn y sector pwysig hwn o'n heconomi. Wrth ddatblygu'r cynllun rydym hefyd

wedi bod yn awyddus i sicrhau bod ein menter yn gweithio ar gyfer adeiladwyr tai llai yn ogystal ag ar gyfer y cwmnïau mwy.

Mewn cyfarfod cynharach gofynnodd y Pwyllgor am y trefniadau ar gyfer ad-dalu i'r Trysorlys y cyllid trafodion ariannol a ddarparwyd ar gyfer Cymorth i Brynu - Cymru. Mae'r trefniadau ad-dalu'n dal i gael eu trafod a byddaf yn rhoi adroddiad i'r Pwyllgor ar y trefniadau hyn ar ôl i'r broses ddod i ben.

Rydym hefyd wedi lansio ein Grant Cyllid Tai a fydd yn arwain at adeiladu mwy na 1,000 o dai fforddiadwy dros y 2 flynedd nesaf, a hynny yn ei dro yn trechu tlodi ac yn gwella iechyd a lles cymunedol. Mae cydweithrediad â chymdeithasau tai wedi bod yn allweddol i'r mecanwaith cyllido arloesol hwn. Mae'r cynllun yn defnyddio ffynonellau cyllido newydd sy'n dod i gyfanswm o oddeutu £125 miliwn. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid refeniw blynyddol o £4 miliwn i 19 cymdeithas dai dros 30 mlynedd er mwyn cynorthwyo i ad-dalu'r cyllid preifat hwn. Fel rhan o'r broses o werthuso'r fenter, bydd buddiannau cymunedol yn cael eu crynhoi ar ôl cwblhau pob datblygiad - gan gynnwys er enghraifft, nifer y swyddi a gynhaliwyd a nifer y prentisiaethau a grëwyd.

Y llynedd, gofynnodd y Pwyllgor imi ynglŷn â monitro'r cynllun a chyflawni gwerth am arian, a'r hyn a gyflawnwyd o ran adeiladu 1,000 o adeiladau. Rydym yn monitro pob datblygiad bob chwarter. Rydym yn gofyn am ddata gwerthuso ar gyfer pob safle a gwblheir er mwyn rhoi adroddiad ar werth am arian, gan gynnwys buddiannau cymunedol. Mae 26 cynllun wedi cael eu cymeradwyo hyd yn hyn. Mae un safle wedi'i gwblhau a 15 o dai fforddiadwy newydd wedi'u hariannu gan y Grant Cyllid Tai. Mae cynlluniau ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau erbyn Nadolig 2015.

Dim ond un enghraifft arall yw'r Grant Cyllid Tai o'n hymrwymiad i gyflawni cynlluniau arloesol a newydd i gefnogi ein partneriaid tai i fuddsoddi mewn tai fforddiadwy. Rwyf hefyd wedi cytuno i nifer o gynlluniau peilot a fydd yn caniatáu i gymdeithasau tai ddatblygu ffyrdd newydd o ddefnyddio grant cyfalaf ac archwilio'r defnydd gorau o dai a thir fforddiadwy sy'n bodoli eisoes. Yn ogystal, roedd y Gynhadledd Cyllid Arloesol ar 15 Mai yn llwyddiant mawr a gwnaeth argraff dda ar y 200 a mwy o weithwyr proffesiynol ym maes tai a oedd yn bresennol. Roedd y gynhadledd yn gyfle i roi'r bobl briodol gyda'i gilydd i wireddu ffrydiau cyllid newydd ar gyfer sector tai Cymru ac i annog sefydliadau i wireddu syniadau. Roedd y digwyddiad yn cyflwyno amrywiaeth o fodelau cyllid arloesol y gellid eu defnyddio i ariannu datblygiad tai yng Nghymru a fydd yn cefnogi twf economaidd a chyflogaeth yn y sector hwn, er mwyn i lywodraeth leol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eu gweld drostynt eu hunain.

Mewn mannau eraill, mae Troi Tai'n Gartrefi'n parhau i lwyddo i dargedu tai gwag i'w gwneud yn barod i'w defnyddio unwaith eto. Hyd yn hyn, dosbarthwyd £20 miliwn i awdurdodau lleol sydd yn eu tro'n darparu benthyciadau di-log i berchnogion i wella eu tai gwag i'w gwerthu neu eu rhentu o fewn dwy neu dair blynedd. Yn seiliedig ar y ceisiadau a dderbyniwyd, bydd o leiaf 900 o unedau llety yn cael eu troi'n gartrefi mawr eu hangen yn sgil y rownd ariannu gyntaf hon.

Wrth i'r benthyciadau hyn gael eu had-dalu bydd yr arian ar gael i ddarparu mwy o fenthyciadau, gan dargedu mwy o adeiladu gwag. Bydd y cynllun yn chwarae rhan allweddol er mwyn ein helpu i gyrraedd ein targed o sicrhau bod 5,000 adeilad gwag yn barod i'w defnyddio eto erbyn diwedd tymor y Cynulliad hwn yn 2016. Rydym ar y trywydd iawn ar hyn o bryd, gyda 2,100 yn barod i'w defnyddio eto yn y ddwy flynedd gyntaf.

Fel rhan o'r gyfres o fesurau yr wyf wedi'u cyhoeddi i hybu'r cyflenwad tai, rwyf hefyd yn adolygu Nodyn Cyngor Technegol 1 - Cyd-astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai. Bwriad hwn yw hwyluso cynnydd yn y cyflenwad o dai'r farchnad agored. Y Gyd-astudiaeth yw'r prif ddull ar gyfer monitro'r cyflenwad o dir ar gyfer tai trwy'r system gynllunio. Bydd yr adolygiad yn sicrhau bod y broses o fonitro cyflenwad tir ar gyfer tai yn cael ei hintegreiddio'n fwy agos â system y Cynllun Datblygu Lleol. Mae swyddogion yn gweithio gyda grŵp cynghori o gynrychiolwyr cwmnïau adeiladu tai ac awdurdodau cynllunio lleol ar yr adolygiad ac yn disgwyl cynnal ymgynghoriad arno dros yr haf.

## 2. <u>Gwasanaethau Tai</u>

Drwy'r Rhaglen Cefnogi Pobl rwy'n buddsoddi dros £134 miliwn i helpu dros 70,000 o bobl i aros yn eu cartrefi eu hunain. Mae Cymdeithasau Tai – a'n gwaith gyda nhw – yn ganolog i lwyddiant y rhaglen hon. Maent yn darparu tai, tai â chymorth dros dro a chymorth tenantiaeth i nifer o bobl agored i niwed ledled Cymru

Rwyf hefyd wedi ymrwymo i helpu Gofal a Thrwsio Cymru i ganfod y ffordd orau o reoli'r gostyngiad yn y gyllideb yn ogystal â gwarchod y gwasanaethau rheng flaen y mae'r asiantaethau'n eu darparu. Yn eu tro, maent wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r asiantaethau i geisio canfod ffyrdd o leihau eu costau gweithredu trwy ystyried rhannu gwasanaethau, cronni adnoddau ac edrych a fyddai'n ymarferol uno rhai asiantaethau i ffurfio asiantaethau mwy gyda llai o gostau rheoli, gweinyddu a seilwaith. Mae'r broses yn parhau, a disgwylir iddi arwain at ganlyniad llwyddiannus gyda llai o asiantaethau erbyn dechrau 2015-2016.

Rydym wedi trefnu bod arian ychwanegol ar gael yn 2014/15 i fynd i'r afael â digartrefedd ac i allu paratoi ar gyfer gweithredu'r darpariaethau digartrefedd newydd yn y Bil Tai o fis Ebrill 2015. Mae'r cyllid hwn wedi golygu bod modd parhau â'r gwaith i liniaru effaith y toriadau i fudd-daliadau tai lle mae awdurdodau lleol wedi rhoi blaenoriaeth i hyn. Rydym yn gweithio'n agos â Rhwydwaith Digartrefedd yr awdurdodau lleol i gefnogi awdurdodau lleol i gryfhau eu gwaith o ran atal digartrefedd. Rydym wedi cyflwyno ffurflen ystadegol newydd i fesur pa mor effeithiol yw'r gwaith atal digartrefedd ym mhob ardal a sut y mae'n cael ei gyflawni.

## 3. Gwella Safonau ac Ansawdd Tai

Mae Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) wrth wraidd ein hymrwymiad i wella'r stoc o dai cymdeithasol sy'n bod eisoes. Llwyddodd 60 y cant o dai cymdeithasol yng Nghymru – sef bron i 134,000 cartref – i gyflawni'r SATC ar 31 Mawrth 2013, i fyny o 42 y cant flwyddyn yn gynharach. Mae hyn yn golygu bod miloedd o'n teuluoedd tlotaf bellach yn byw mewn cartrefi saff, diogel. Mae ffurflenni ystadegau cyfredol a ddarparwyd gan landlordiaid yn awgrymu y bydd 75 y cant o'u stoc tai'n cydymffurfio â'r safon erbyn mis Mai 2016. Byddwn yn monitro'r ffurflenni hyn yn ofalus.

Bellach mae'n ofynnol i bob landlord cymdeithasol werthuso'r nifer fawr o fuddiannau cymunedol sy'n deillio o'u gweithgareddau caffael drwy Ddull Mesur Gwerth Cymru, a chyflwyno adroddiad ar y canlyniadau. O ganlyniad i hyn bydd modd cyflwyno adroddiadau mwy manwl ar y swyddi a'r cyfleoedd hyfforddi a gyflwynir trwy fuddsoddi ym maes tai. Mae landlordiaid cymdeithasol yn buddsoddi cyfanswm o tua £500 miliwn y flwyddyn er mwyn gwella'r stoc tai cymdeithasol, gyda £108 miliwn o hwn yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru.

Mae buddsoddiad ym maes tai yn cefnogi cyfleoedd swyddi a thwf ar draws Cymru ac rwyf am sicrhau bod pob cymdeithas dai, waeth beth fo'i maint na'i lleoliad, yn chwilio am bob cyfle i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i'w chymunedau i sicrhau bod y cymunedau hynny'n cael y budd mwyaf o'r buddsoddiad a wneir. Mae'n hanfodol ein bod yn cofnodi'r canlyniadau hyn ac rwyf wedi gofyn i bob cymdeithas dai sicrhau ein bod yn cael tystiolaeth yn gyson o'r hyn a gyflawnir.

Mae'r Pwyllgor wedi holi ynglŷn â gwerthuso'r SATC. Cyhoeddwyd adroddiad Altair "*Welsh Housing Quality Standard – Verification of progress in achieving the standard*" ar 13 Mai 2014. Mae swyddogion yn ystyried yr argymhellion a byddaf yn ymateb i ganfyddiadau'r adroddiad yn y man.

Yn ogystal, rwyf wedi sefydlu Grŵp Adolygu i edrych ar Ofynion Ansawdd Datblygu mewn cysylltiad â chartrefi newydd. Rwy'n disgwyl i'r Adolygiad gydbwyso'r angen pwysig am ansawdd a'r buddiannau i gymdeithas a'r pwrs cyhoeddus gyda'n nod cyffredinol o ddarparu mwy o gartrefi i bobl mewn angen. Rwyf am sicrhau bod y safonau yr ydym yn eu cymeradwyo yn addas ar gyfer y diben.

Fel y bydd y Pwyllgor yn ymwybodol, cyhoeddais ym mis Ionawr y byddem yn rhedeg rhaglen beilot £1 miliwn yn gosod system chwistrellu mewn cartrefi cymdeithasol newydd yng Nghymru. Rwy'n falch ein bod wedi derbyn cynigion o ansawdd da ac y byddwn yn cynnal 16 prosiect ar wahân gyda deg Cymdeithas Dai, yn gosod systemau chwistrellu mewn oddeutu 230 o unedau tai cymdeithasol newydd. Byddwn yn comisiynu ymgynghorwyr i fonitro profiad cynllunydd a gosodwr y system chwistrellu, yr adeiladwr, y Corff Rheoli Adeiladu, y cwmni dŵr perthnasol, a'r Gymdeithas Dai, yn ogystal â'r gwersi a ddysgwyd. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar gost systemau chwistrellu. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad terfynol yn manylu'r gwersi a ddysgwyd yn nhymor yr hydref 2015, yn barod ar gyfer y gofyniad i osod systemau chwistrellu ym mhob tŷ a fflat newydd ac adeiladau sy'n cael eu trosi'n dai a fflatiau yng Nghymru o 1

Ionawr 2016.  Mae'r prosiect yn cael ei oruchwylio gan Grŵp Llywio, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o blith adeiladwyr tai, y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi, Cymdeithas Dai, a'r diwydiant chwistrellwyr tân.

Bydd gwelliannau i Ran L y Rheoliadau Adeiladu ar arbed tanwydd a phŵer yn dod i rym ar 31 Gorffennaf 2014.  Mae'r newidiadau hyn yn golygu y bydd tai newydd 8 y cant yn fwy effeithiol o ran ynni o'u cymharu â'r rheoliadau adeiladu presennol, ac mae'r gwelliant yn 20 y cant ar gyfer adeiladau annomestig newydd.  Mae'r newidiadau'n adlewyrchu'r egwyddor 'adeiladwaith yn gyntaf' sydd â'r nod o leihau'r galw am ynni'n gyntaf.  Bydd angen i adeiladwaith yr adeilad, megis y waliau, y lloriau a'r toeau, fodloni safonau penodol er mwyn cydymffurfio.  Bydd hyn yn sicrhau bod pob tŷ newydd yn addas ar gyfer y diben ac yn cyflawni i safon uchel a fydd yn gofyn am lai o wresogi neu awyru yn y tymor hir.

Rydym yn credu, ar gyfer tai newydd, y bydd y newidiadau'n cael effaith agos at fod yn niwtral o ran cost ar gostau adeiladu o'u cymharu â'r polisi cynllunio adeiladau cynaliadwy (TAN22).  Fodd bynnag, byddwn yn darparu cefnogaeth reoliadol ar gyfer lleihau allyriadau sy'n rhywbeth a geisir ar hyn o bryd trwy ganllawiau cynllunio. Byddwn yn adolygu Rhan L eto yn 2016 fel y cam nesaf tuag at darged yr UE o sicrhau bod pob adeilad cyhoeddus newydd erbyn 2019 a phob adeilad newydd erbyn 2021 bron yn ddiynni.

## 4. **Adfywio**

Mae ein Fframwaith Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn gosod y polisi ar gyfer adfywio canol trefi yng Nghymru.  Ein gweledigaeth yw y dylai pawb yng Nghymru fyw mewn cymunedau llewyrchus, llawn addewid a chynaliadwy, â chysylltiadau da, economi leol gref ac ansawdd bywyd da.

Mae'r Fframwaith Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid yn amlinellu ein hamcanion cenedlaethol a sicrhawyd ei fod yn cyd-fynd â'r rhaglen Cymunedau'n Gyntaf - Cymunedau Ffyniannus, Cymunedau Dysgu a Chymunedau Iachach.  Drwy'r Rhaglen byddwn yn cefnogi gweithgareddau i gyflawni canlyniadau megis lefel well o weithgarwch economaidd a mwy o swyddi; gweithlu medrus a hyderus ar hyn o bryd ac yn y dyfodol; a chymunedau iach a chydlynol, sy'n gallu gweithio a thyfu gyda'i gilydd. Byddwn yn monitro'r hyn a gyflawnir trwy ddefnyddio dangosyddion canlyniadau a amlinellir yn y Fframwaith.

Mae'r Fframwaith hwn yn cael ei gefnogi gan dros £100 miliwn ar gyfer buddsoddiad adfywio wedi'i dargedu dros y tair blynedd nesaf, gan fanteisio ar fuddsoddiad ychwanegol sylweddol o ffynonellau eraill.  Bydd y prif swm hwn o £100 miliwn yn cael ei ategu gan £7 miliwn arall ar gyfer trechu tlodi mewn saith anheddiad arall yn ein hardaloedd mwyaf difreintiedig.

Mae Adfywio sy'n cael ei arwain gan Dai yn elfen allweddol o'n Fframwaith Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.  Mae cymdeithasau tai a chwmnïau cydfuddiannol cymunedol yn chwaraewyr economaidd allweddol yng Nghymru, nid yn unig fel landlordiaid a datblygwyr, ond yn eu swyddogaeth ehangach o fuddsoddi mewn adfywiad cymunedau lleol.

Bydd y Gronfa Fenthyciadau ar gyfer Canol Trefi yn lleihau nifer y safleoedd gwag ac afraid a rhai na wneir defnydd llawn ohonynt, ac yn cynorthwyo i wneud defnydd mwy amrywiol o ganol trefi.  Bydd y cynllun yn annog dulliau mwy cynaliadwy o ddefnyddio safleoedd ac adeiladau gwag, megis defnydd preswyl a hamdden ac ar gyfer gwasanaethau allweddol**.**

Bydd cynllun peilot o £5 miliwn sydd i'w ryddhau yn 2014/15 yn darparu benthyciadau i gefnogi adfywiad canol trefi a datblygu lleoedd llewyrchus llawn addewid. Mae'r cyllid i gael ei ailgylchu dros gyfnod o 15 mlynedd ac awgrymir y daw enillion i Lywodraeth Cymru ym mlwyddyn 11-15.  Caiff yr arian ei rannu rhwng nifer cyfyngedig o awdurdodau lleol ar gyfer y fenter beilot.  Bydd Ceredigion, Powys, Sir Benfro a Sir Fynwy - y pedwar awdurdod lleol nad ydynt yn derbyn arian Fframwaith Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid – yn cael eu hystyried ar gyfer y fenter beilot hon.

Rwy'n ystyried lansio ymgyrch i gefnogi ein Stryd Fawr yr hydref hwn ac rydym wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn amlinellu ein cynlluniau ac yn gofyn iddynt weithio mewn partneriaeth.  Gofynnwyd i awdurdodau lleol amlinellu eu cefnogaeth a chyfranogiad yr aneddiadau allweddol, ac awgrymu digwyddiadau a gweithgareddau. Rydym yn bwriadu hwyluso brand cenedlaethol ac adnoddau i bob rhanddeiliad eu defnyddio i roi sylw i'n Stryd Fawr.  Bydd awdurdodau lleol, Siambrau Masnach lleol neu berchnogion busnes yn gallu darparu digwyddiadau i godi proffil ac amlygu pwysigrwydd y stryd fawr a'r rhan bwysig y mae'n ei chwarae mewn cymunedau llewyrchus.

Rwy'n bwriadu cynnal Uwchgynhadledd Adfywio. Y thema allweddol fydd adfywio canol trefi a'r stryd fawr yng Nghymru a bydd yn canolbwyntio ar y rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid a'r fenter Ardaloedd Gwella Busnes.  Bydd hefyd yn edrych ar enghreifftiau allweddol o'r nifer o brosiectau lleol a rhai sy'n eu hariannu eu hunain mewn canol trefi ledled Cymru.  Cynigir y dylai'r is themâu gynnwys adfywio a arweinir gan dai, rheoleiddio canol trefi a chymuned gymdeithasol.  Bydd yr uwchgynhadledd yn rhoi cyfle i rannu arfer gorau a chefnogi adfywiad ledled Cymru.

Cyhoeddwyd yr adroddiad ymchwil ym maes Cynllunio *'Town Centres and Retail Dynamics: Towards a Revised Retail Planning Policy for Wales'* ym mis Ebrill. Comisiynwyd yr adroddiad gan Lywodraeth Cymru yn dilyn argymhellion i adolygu polisi cynllunio manwerthu a wnaed gan y Pwyllgor Menter a Busnes ym mis Ionawr 2012 yn ei adroddiad *'Adfywio Canol Trefi'.*  Mae adroddiad yr ymchwil yn nodi ystadegau manwerthu allweddol yng Nghymru, yn ystyried yr effaith ar ganol trefi trwy ddatblygu manwerthu, ac yn asesu pa mor briodol yw'r polisi cynllunio manwerthu cenedlaethol presennol.  Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion sy'n cael eu hystyried ac a

fydd yn helpu i lywio unrhyw adolygiad posibl yn y dyfodol o bolisi a chyngor ym maes cynllunio manwerthu yng Nghymru.

## 5. **Deddfwriaeth**

### Y Bil Tai (Cymru)

Mae Bil Tai (Cymru) wedi cwblhau Cyfnod 2 a bellach ar Gyfnod 3 y broses graffu. Archwiliodd Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Bil Tai yn ystod Cyfnod 2 ac mae cyfraniad y Pwyllgor a'r rhanddeiliaid wedi creu gwell Bil a fydd yn cyflwyno buddion sylweddol. Mae'r buddion yn cynnwys sicrhau bod y sector rhentu preifat yn addas ar gyfer y diben; darparu gwasanaethau i helpu i osgoi digartrefedd a sicrhau bod mwy o deuluoedd mewn tai â thenantiaeth ddiogel; a sicrhau bod modd i'r awdurdodau lleol godi trethi cyngor ychwanegol ar eiddo gwag ac ail gartrefi er mwyn helpu i liniaru pwysau ar gymunedau a throi mwy o dai yn gartrefi. Edrychaf ymlaen at Gyfnod 3 a'r cyfnod terfynol, Cyfnod 4 pan wyf yn gobeithio y bydd y Bil yn cael ei gymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Y Bil Rhentu Cartrefi

Bydd y Bil Rhentu Cartrefi yn arwain at ddiwygio’r sector tai rhent – diwygio y mae galw mawr amdano. Yn seiliedig ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith yn 2006, bydd yn darparu system symlach o gontractau diogel a safonol. Bydd y ddau gontract hyn yn disodli bron yn llwyr y mathau niferus o denantiaethau a thrwyddedau sy'n bodoli ar hyn o bryd. Bydd y contractau hyn yn sicrhau eglurder a chysondeb mewn nifer o feysydd, gan ei gwneud yn bosibl i Landlordiaid a phreswylwyr fanteisio ar fframwaith eglur ac ymarferol ar gyfer rhentu cartref. Bydd y ddeddfwriaeth yn cynnwys

- darparu ar gyfer un contract diogel sy'n seiliedig ar denantiaeth ddiogel yr awdurdod lleol ac un contract safonol tebyg i'r denantiaeth fyrddaliol sicr (disgwylir y bydd hwn yn cael ei defnyddio gan y sector preifat yn bennaf);
- ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid ddarparu contractau ysgrifenedig a rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyhoeddi contractau enghreifftiol;
- 'telerau ymddygiad gwaharddedig' statudol mewn contractau ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol a cham-drin domestig;
- safoni hawliau olyniaeth;
- safoni'r broses o droi tenantiaid allan am ôl-ddyledion rhent;
- galluogi landlordiaid, yn gyfreithlon, i adfeddiannu eiddo y cefnwyd arno heb fod angen gorchymyn llys;
- sicrhau bod llety yn addas i bobl fyw ynddo.
- atal landlordiaid rhag troi tenant allan er mwyn dial; a
- sefydlu fframwaith cyfreithiol ar gyfer tai â chymorth.

### Y Bil Cynllunio (Cymru) Drafft

Ar 4 Rhagfyr 2014 cyhoeddais Fil Cynllunio (Cymru) drafft a'r papur ategol, *Cynllunio cadarnhaol: cynigion i ddiwygio'r system gynllunio yng Nghymru,* ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Trwy fy nghynigion Cynllunio Cadarnhaol, fy nod yw gweld cynllunio yn dod yn elfen sy'n galluogi datblygiad priodol sy'n helpu i ddarparu'r swyddi, y seilwaith, y

cartrefi a'r cymunedau y mae ar Gymru eu hangen. Daeth y cyfnod ymgynghori o ddeuddeng wythnos i ben ar 26 Chwefror 2014 ac roedd yn gyfle i'r rhai sydd â budd yn fy nghynigion gael rhoi eu barn arnynt. Bydd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael ei gyhoeddi yn y man. Bydd yr ymatebion yn fodd i fireinio'r Bil cyn imi ei gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ddiweddarach eleni.

**Y Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru)**
Bydd yr aelodau'n ymwybodol, o'r dystiolaeth a ddarperais yn ddiweddar, nad yw Llywodraeth Cymru yn cefnogi’r Bil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru) fel ag y mae. Yn ein barn ni, nid yw'r Bil yn gymesur ac os caiff ei weithredu, mae'n debygol o roi'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru mewn sefyllfa anfanteisiol o'i gymharu â Lloegr. Rwyf yn disgwyl yn eiddgar am ganfyddiadau'r Pwyllgor.

**Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013**
Derbyniodd y Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Tachwedd 2013 a bydd yn dod i rym ar 1 Hydref 2014. Mae'r Ddeddf yn cynnwys pum cyfres o reoliadau:

- Rheolau Safle,
- Gwerthu a Rhoi yn Anrheg,
- Adolygu Ffioedd am Leiniau,
- Datganiadau Ysgrifenedig a
- diwygio Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl.

Cwblhawyd ymgynghoriad ar reoliadau Rheolau Safle, Gwerthu a Rhoi yn Anrheg ac Adolygu Ffioedd am Leiniau yn ddiweddar a bydd y rheoliadau hyn yn cael eu gosod cyn bo hir er mwyn iddynt ddod i rym ar yr un pryd â'r Ddeddf ar 1 Hydref.

Mae fy swyddogion yn gweithio gydag awdurdodau lleol ar hyn o bryd er mwyn paratoi ar gyfer rhoi’r Ddeddf newydd ar waith, gan ddatblygu ffurflen gais safonol ar gyfer trwydded safle a phecyn cymorth ar gyfer ffioedd a dirwyon y gall pob awdurdod lleol eu defnyddio i sicrhau bod y broses yn gyson ac eglur. Trefnwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru ac mae taflenni a dalenni gwybodaeth yn cael eu paratoi ar gyfer pobl sy'n byw ar y safleoedd, rheolwyr y safleoedd a'r awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod y rhanddeiliaid yn gwbl ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau o dan y ddeddfwriaeth newydd.

## 6. Llywodraethu

Mae safonau llywodraethu corfforaethol uchel yn eithriadol bwysig, yn fy marn i, yn ogystal â'r angen i fyrddau cynghori a gweithgorau adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu a bod mor eglur â phosibl wrth wneud penderfyniadau a chyfathrebu â rhanddeiliaid. Dros y misoedd diwethaf rwyf wedi bod yn canolbwyntio'n benodol ar sicrhau bod y byrddau a'r grwpiau hyn yn datblygu cymysgedd amrywiol o aelodau, gan ystyried yn arbennig sut y byddant yn mynd i’r afael â chydbwysedd eu haelodau o ran rhyw, oedran, hil, anabledd a phrofiad proffesiynol. Fy mwriad yw cael gwell cydraddoldeb a chynrychiolaeth, yn ogystal â sicrhau grwpiau sy'n agored i syniadau

newydd ac i her allanol cadarnhaol, ac sy'n gwrando ar eu rhanddeiliaid gan ddysgu o'u profiadau o ddydd i ddydd.

## 7. Y Gyllideb

Crynhoir cyllideb Prif Grŵp Gwariant Tai ac Adfywio ar gyfer 2014-15 fel a ganlyn:

| | **Cyllideb Derfynol 2013-14** | **Cyllideb Derfynol 2014-15 £m** |
|---|---|---|
| Refeniw | 172.6 | 169.3 |
| Cyfalaf | 331.7 | 366.3 |
| **Cyfanswm cyllidebau DEL** | **504.3** | **535.6** |

Mae ffigurau 2013-14 yn cyfleu'r sefyllfa ar gychwyn yr ail Gyllideb Atodol, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2014. Mae ffigurau Cyllideb Derfynol 2014-15 fel y'u nodir yn y Gyllideb Derfynol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2013.

**Sefyllfa 2013-14**

Mae sefyllfa alldro derfynol 2013-14 wrthi'n cael ei harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n rhy gynnar i gyhoeddi ffigurau llawn. Fodd bynnag, mae'r ffigurau drafft yn dangos gwariant Refeniw o £172.4 miliwn a gwariant Cyfalaf o £331.5 miliwn, sy'n dangos bod fy adran wedi defnyddio 99.9% o'r gyllideb a oedd ar gael iddi.

**Sefyllfa Refeniw**

Mae ffigur cyllideb refeniw 2014-15 3.8% yn is na ffigur gwaelodlin 2013-14 ac 1.9% yn is na Sefyllfa Derfynol 2013-14. Dengys hyn y pwysau ar gyllidebau refeniw ar draws Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rhoddir blaenoriaeth i ddiogelu cyllidebau Cefnogi Pobl a Digartrefedd hyd y bo modd, o ystyried bod y cyllidebau hyn yn darparu ar gyfer rhai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

**Sefyllfa Gyfalaf**

Yn ei chyfanrwydd, mae cyllideb gyfalaf Tai ac Adfywio £34.6 miliwn yn uwch na sefyllfa derfynol 2013-14. Mae'r cynnydd net i gyllideb gyfalaf y flwyddyn yn dangos:

- Cynnydd o £34.5 miliwn i gyllid Cymorth i Brynu - Cymru, ein polisi i gynorthwyo i gynyddu'r cyflenwad o dai newydd yng Nghymru.
- £15 miliwn i gefnogi'r Gronfa Gofal Canolraddol, cyllid ychwanegol i alluogi pobl i aros yn eu cartrefi'n hirach a lleihau'r pwysau ar gyllidebau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

- Dim dyraniad ar gyfer y cynllun Troi Tai'n Gartrefi (£10 miliwn yn 2013-14), ein polisi ar gyfer trin eiddo gwag er mwyn gallu ailddechrau eu defnyddio, nawr bod y cynllun benthyciadau ailgylchadwy ar gyfer awdurdodau lleol wedi derbyn cyllid o £20 miliwn a thra bod y cynllun yn cael ei werthuso.
- Gostyngiad o £5 miliwn yng nghyllid y Grant Tai Cymdeithasol, sy'n adlewyrchu ychwanegiadau a throsglwyddiadau i'r gyllideb hon a ddyrennir fel arfer yn ystod y gyllideb atodol gyntaf a'r ail gyllideb atodol yn y flwyddyn.

Mae'r adran yn parhau i fanteisio i'r eithaf ar y cyllid trafodion ariannol sydd ar gael. Yn 2014-15 bydd yr Adran yn defnyddio £79 miliwn o'r math hwn o gyllid cyfalaf, a fydd yn cynnwys:

- £69 miliwn ar gyfer Cymorth i Brynu Cymru.
- £5 miliwn ar gyfer cynllun peilot ym maes tir i godi tai fforddiadwy
- £5 miliwn ar gyfer cynllun peilot i adfywio canol trefi

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**
**Papur Tystiolaeth Cymunedau a Threchu Tlodi – 19 Mehefin 2014**

## Cyflwyniad

1. Mae'r portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi'n llywio dull cydlynol o drechu tlodi sydd ar waith ar draws adrannau'r llywodraeth. Mae'n mynd ati i wella'r canlyniadau i blant, teuluoedd a chymunedau difreintiedig ac i sicrhau bod y camau sy'n cael eu cymryd o ran swyddi, sgiliau, addysg ac iechyd yn cyrraedd y rheini a fyddai fel arall yn elwa arnynt olaf. Mae atal tlodi ac ymyrryd yn gynnar yn allweddol. Mae'r portffolio'n cwmpasu:

- Trechu tlodi a gwneud cymunedau'n fwy cadarn, gan gynnwys Cymunedau yn Gyntaf;
- Cydgysylltu ymateb Llywodraeth Cymru i'r diwygiadau lles;
- Cynyddu cynhwysiant ariannol a chynhwysiant digidol, gan gynnwys y Gronfa Cymorth Dewisol, Gwasanaethau Cynghori ac Undebau Credyd;
- Cynorthwyo teuluoedd a phlant, yn enwedig drwy'r rhaglenni Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf;
- Sicrhau bod mwy o ddarpariaeth gofal plant a darpariaeth chwarae ar gael sydd o safon uchel ac sy'n fforddiadwy;
- Hybu hawliau plant a phobl ifanc a'u hannog i gymryd rhan;
- Hybu cydraddoldeb a chynhwysiant;
- Cefnogi datblygiad y Trydydd Sector a gwella'r berthynas strategol rhyngddo a'r llywodraeth;
- Hyrwyddo datblygu cynaliadwy yng ngwaith Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid.

2. Mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi a'r Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi'n rhannu cyfrifoldeb dros y portffolio. O ddydd i ddydd, y Dirprwy Weinidog sy'n gyfrifol am y rhaglenni cyflawni craidd, sef Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Gellir ymateb yn ysgrifenedig yn ôl y gofyn i gwestiynau manwl sy'n ymwneud â'r meysydd y mae'r Dirprwy Weinidog yn gyfrifol amdanynt.

## Cyllid

| | 2013-14 (Y Gyllideb Atodol) £000 | 2014-15 (Y Gyllideb Derfynol) £000 |
|---|---:|---:|
| | | |
| Refeniw | 175,891 | 192,246 |
| Cyfalaf | 27,200 | 20,450 |
| | | |
| **CYFANSWM DEL** | **203,091** | **212,696** |
| | | |

3. Mae cyllideb y portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi yn 2014/15 yn cynnwys:

- £39.450m ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf;
- £72.094m o gyllid refeniw ac £8m o gyllid cyfalaf ar gyfer Dechrau'n Deg;

- £46.908m ar gyfer Teuluoedd yn Gyntaf;
- £  0.901m ar gyfer Undebau Credyd;
- £12.363m o dan y Gronfa Cymorth Dewisol (arian grant a gweinyddu);
- £  1.500m ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr;
- £10.950m ar gyfer y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol.

**Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (y Dirprwy Weinidog sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb o ddydd i ddydd)**

4. Mae'r camau i roi'r Cynllun hwn ar waith yn canolbwyntio ar chwe blaenoriaeth: y blynyddoedd cynnar; y bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion; pobl ifanc nad ydynt yn gweithio nac yn dysgu; lleihau nifer yr aelwydydd heb waith; sicrhau mynediad cyfartal at ofal iechyd o safon; a thai ac adfywio.

5. Yn ychwanegol at y gwaith monitro mewnol a'r gwaith cydgysylltu gan y Bwrdd Gweithredu o dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Weinidog, mae'r gwaith o ymgysylltu â phartneriaid allanol yn annog awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd y cyhoedd, sefydliadau yn y trydydd sector a rheolwyr ein prif raglenni trechu tlodi i gydweithio o ran y blaenoriaethau hyn.

6. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad am y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi ym mis Gorffennaf 2014. Bydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerwyd i wireddu ein hymrwymiadau yn y Cynllun Gweithredu, a bydd yn amlinellu'r prif ddatblygiadau yng Nghymru i drechu tlodi gwledig a thlodi ymhlith pobl sy'n gweithio.

**Dechrau'n Deg (y Dirprwy Weinidog sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb o ddydd i ddydd)**

7. Mae'r gwaith o ehangu Dechrau'n Deg yn mynd rhagddo.

8. Rydym wedi ymrwymo i ddyblu nifer y plant sy'n elwa ar y rhaglen o 18,000 i 36,000 erbyn diwedd cyfnod y Cynulliad hwn.

9. Ar sail gwybodaeth reoli nad yw wedi'i dilysu am y naw mis hyd at fis Rhagfyr 2013, rydym ar y trywydd iawn i gyflawni'r targed o ran nifer buddiolwyr y rhaglen Dechrau'n Deg yn 2013-14, gyda thros 27,000 o blant yn elwa ar y rhaglen yn ystod naw mis cyntaf y flwyddyn. Rydym wrthi'n dilysu'r data hwn a byddwn yn cyhoeddi data'r flwyddyn gyfan yn ffurfiol ym mis Gorffennaf 2014.

10. Mae swyddogion yr Adran Cymunedau a Threchu Tlodi'n parhau i gydweithio'n agos â'r awdurdodau lleol i fonitro'r camau i ehangu'r rhaglen ac i sicrhau bod yr adnoddau ychwanegol yn cael eu targedu at y plant mwyaf difreintiedig yn y cymunedau hynny. Mae cysylltiadau â bydwragedd hefyd yn cael sylw cynyddol.

11. Drwy ehangu'r rhaglen, mae Dechrau'n Deg wedi creu nifer o wahanol swyddi mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru. Mae'r rhain yn amrywio o swyddi adeiladu i swyddi gofal plant, gweithwyr iechyd proffesiynol a staff gweinyddol.

12. Mae rhaglen gadarn ac annibynnol ar waith i werthuso Dechrau’n Deg. Cyhoeddwyd cyfres o adroddiadau ar ddiwedd 2013. Mae’r canfyddiadau’n dangos bod teuluoedd mewn ardaloedd Dechrau’n Deg yn cael mwy o ymweliadau gan ymwelwyr iechyd, eu bod yn gwybod mwy am raglenni rhianta a’u bod yn fwy parod i’w defnyddio na theuluoedd mewn ardaloedd tebyg lle nad yw’r rhaglen Dechrau’n Deg yn gweithredu. Dywedodd y rhieni a gafodd eu cyfweld fod y rhaglen hefyd wedi dylanwadu’n gadarnhaol ar ddatblygiad eu plant.

**Rhaglen Gyfalaf Dechrau’n Deg (y Dirprwy Weinidog sy’n ysgwyddo cyfrifoldeb o ddydd i ddydd)**

13. Mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi swm sylweddol mewn seilwaith i gefnogi’r camau i roi’r rhaglen Dechrau’n Deg ar waith. Hyd yma, darparwyd dros £28 miliwn i ariannu prosiectau cyfalaf ar hyd a lled Cymru.

14. Erbyn diwedd 2015-16, bydd Llywodraeth Cymru wedi ariannu prosiectau i ddatblygu lleoliadau a fydd yn darparu bron i 9,000 o leoedd gofal plant rhan-amser o safon ar hyd a lled Cymru. Bydd hefyd wedi creu ystod o adeiladau ar gyfer y timau amlasiantaeth sy’n rhoi gwasanaethau Dechrau’n Deg ar waith ar lawr gwlad, yn ogystal â lleoliadau i ddarparu cyrsiau rhianta, sesiynau iaith a sesiynau chwarae.

**Teuluoedd yn Gyntaf (y Dirprwy Weinidog sy’n ysgwyddo cyfrifoldeb o ddydd i ddydd)**

15. Mae rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf Llywodraeth Cymru’n creu dull integredig o gefnogi teuluoedd yng Nghymru, a hynny drwy gefnogi’r teulu cyfan. Ei nod yw datblygu cymorth effeithiol, amlasiantaeth i deuluoedd i wella’u canlyniadau, yn enwedig y rheini sy’n byw mewn tlodi neu sydd mewn perygl o fyw mewn tlodi. Mae’n rhoi pwyslais clir ar ymyrryd yn gynnar ac atal tlodi, ar gychwyn drwy ddefnyddio dull sy’n seiliedig ar gryfderau, ac ar ddod â sefydliadau ynghyd i weithio gyda’r teulu cyfan i helpu i atal problemau rhag datblygu’n argyfwng.

16. Dwy o brif nodweddion y rhaglen yw’r gofynion am i awdurdodau lleol ddatblygu prosesau asesu ac ymgysylltu sy’n canolbwyntio mwyfwy ar y teulu drwy ‘Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd’, a gwella cymorth cydgysylltiedig drwy fodelau’r ‘Tîm o Amgylch y Teulu’. Mae Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd yn asesu cryfderau ac anghenion teuluoedd mewn nifer o feysydd ac fe’i defnyddir i lunio cynllun pwrpasol o ymyriadau i helpu teuluoedd i oresgyn y problemau y maent yn eu hwynebu. Mae’r Tîm o Amgylch y Teulu yn fodel sy’n dod ag ystod eang o weithwyr proffesiynol ynghyd i gydweithio â theuluoedd i’w helpu i fynd i’r afael â’r holl heriau amrywiol y maent yn eu hwynebu.

17. Mae rhaglen annibynnol ar waith i werthuso Teuluoedd yn Gyntaf ar sail genedlaethol. Disgwylir i’r adroddiad am yr ail flwyddyn gael ei gyhoeddi ar 12 Mehefin 2014. Mae’n rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf am y camau i roi’r rhaglen ar waith ac mae’n cynnwys astudiaethau achos am brofiadau teuluoedd ac adroddiadau am effaith gynnar y rhaglen.

**Cymunedau yn Gyntaf (y Dirprwy Weinidog sy'n ysgwyddo cyfrifoldeb o ddydd i ddydd)**

18. Mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn canolbwyntio ar drechu tlodi ac mae iddi dri chanlyniad strategol: Cymunedau sy'n Ffynnu, yn Iach ac yn Dysgu. Rydym yn parhau i ymrwymo i'r rhaglen a bydd yn para drwy gydol cyfnod y Llywodraeth hon. Disgwylir yr adroddiad gwerthuso cyntaf am y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar ei newydd wedd ym mis Gorffennaf.

19. Erbyn mis Ionawr 2013, cytunwyd ar drefniadau ariannu pob un o'r 52 Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf newydd, a dyrannwyd £75 miliwn ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2015. Mae'r rhaglen bellach yn cwmpasu cyfran fwy o'r boblogaeth, gyda thua 24% o boblogaeth Cymru'n rhan ohoni erbyn hyn.

20. Mae perfformiad y rhaglen yn cael ei fonitro a'i fesur yn erbyn fframwaith canlyniadau sy'n caniatáu i ni gymharu canlyniadau ar draws y rhaglen ac sy'n dangos ei heffaith o ran trechu tlodi ar lefel leol a chenedlaethol. Gan mai Rhaglen Trechu Tlodi yw Cymunedau yn Gyntaf, mae'n cael cryn sylw yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi a bydd gofyn iddi adrodd yn erbyn nifer o dargedau allweddol erbyn 2020. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn monitro'r meysydd lle y mae amgylchiadau unigolyn wedi gwella, felly gall unrhyw unigolyn fod yn "well ei fyd" mewn mwy nag un maes. Mae'n cwmpasu ystod eang o fesurau, o ennill cymhwyster, mynd ati o'r newydd i chwilio am swydd, a chael hyd i swydd, i fesurau fel gwell lles meddwl, sgiliau rhianta a gweithgarwch corfforol.

<u>Targed Ffyniant</u>:

- 45,000 o ymyriadau gyda phobl, 26,250 yn well eu byd (58 y cant).

- Y ffigurau gwirioneddol fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2014:
  53,895 o ymyriadau gyda phobl, 13,947 yn well eu byd (26 y cant).

- Ymhlith yr ymyriadau o dan y thema hon mae helpu pobl i ddychwelyd i'r byd gwaith drwy raglenni sgiliau, mentrau hyfforddi, clybiau swyddi a phrosiectau i wella'r economi ac entrepreneuriaeth yn yr ardal.

- Yn ystod deuddeg mis cyntaf y Rhaglen, mae'r ffigurau'n dangos bod 26% o'r ymyriadau wedi arwain at wella amgylchiadau pobl yn sylweddol, fel y bobl hynny sydd wedi ymuno â'r byd gwaith.

- O dan y thema ffyniant, cafwyd 9,000 yn fwy o ymyriadau na'r targed. Mae'r cynnydd hwn yn nifer y cyfranogwyr yn effeithio ar ganran gymharol y rheini y tybir eu bod yn well eu byd. Fodd bynnag, mae canran y rheini sy'n 'well eu byd' (26%) eisoes dros hanner ffordd at gyrraedd y targed o 58%, a hynny ddim ond 12 mis ar ôl rhoi'r Rhaglen ar waith. Wrth i'r rhaglen fynd rhagddi, byddem yn disgwyl gweld y ganran hon yn cynyddu wrth i effaith hirdymor yr ymyriadau ddwyn ffrwyth.

<u>Targed Dysgu</u>:

- 30,000 o ymyriadau gyda phobl, 18,750 yn well eu byd (63 y cant).

- Y ffigurau gwirioneddol fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2014:

39,858 o ymyriadau gyda phobl, 13,345 yn well eu byd (33 y cant).

- Ymhlith y prosiectau o dan y canlyniad dysgu mae mentrau i helpu pobl i ddysgu sgiliau newydd, i ddysgu sgiliau sylfaenol ac i gael eu cynnwys yn ddigidol, yn ogystal â mentrau sy'n canolbwyntio'n benodol ar wella canlyniadau addysgol plant a phobl ifanc, drwy fynd i'r afael â llythrennedd teuluoedd a phresenoldeb.

- Mae'r ffigurau'n dangos bod y prosiectau dysgu wedi ymyrryd bron i 10,000 gwaith yn fwy na'r lefel ymyrraeth ddisgwyliedig a bod 33% o'r bobl yn well eu byd. Mae hwn yn gynnydd da tuag at fodloni'r targed ac mae'n dangos ein bod eisoes dros hanner ffordd at gyflawni'r targed ddim ond 12 mis ar ôl rhoi'r Rhaglen newydd ar waith. Mae *nifer* (nid canran) y bobl sy'n well eu byd ddim ond 5,000 yn is na'r targed gwreiddiol, a hynny yn nyddiau cynnar y Rhaglen.

<u>Targed Iechyd</u>:
- 26,250 o ymyriadau gyda phobl, 16,875 yn well eu byd (64 y cant).

- Y ffigurau gwirioneddol fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2014:
  45,273 o ymyriadau gyda phobl, 22,364 yn well eu byd (49 y cant).

- Ymhlith yr ymyriadau iechyd mae mentrau o ran bwyta'n iach, ffyrdd iach ac annibynnol o fyw, tyfu a choginio bwyd iach, ymarfer corff, rhoi'r gorau i smygu, iechyd cyn ac ar ôl genedigaeth, ac ymwybyddiaeth o alcohol.

- Mae'r ffigurau'n dangos bod y prosiectau wedi ymyrryd 20,000 o weithiau'n fwy na'r targed, gan bron i ddyblu'r ffigur targed. Mae'n anochel bod hyn wedi effeithio ar ganran y rheini sy'n teimlo eu bod yn well eu byd, felly dim ond 49% o'r cyfranogwyr (yn erbyn targed o 64%) oedd yn well eu byd. Fodd bynnag, o edrych ar niferoedd y bobl sy'n well eu byd, mae dros 5,000 o bobl yn fwy yn well eu byd na'r disgwyl o ganlyniad i'r mentrau hyn.

21. Mae nifer fawr o ymyriadau'n digwydd o fewn y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ac mae canrannau'r bobl sy'n well eu byd yn galonogol iawn, gan mai dim ond ers mis Ionawr 2013 y mae'r strwythur Clystyrau newydd yn ei le a chan nad oedd nifer ohonynt wedi'u staffio'n llwyr tan yn hwyr yn 2013. Wrth i'r Rhaglen fynd rhagddi i'w hail flwyddyn ariannol lawn, byddem yn disgwyl i'r gymhareb ganrannol gynyddu, yn enwedig o gofio nad yw rhai o'r prosiectau tymor hwy wedi dwyn ffrwyth eto. Mae llawer o'r bobl y mae'r Rhaglen yn gweithio gyda nhw'n dod o grwpiau y mae'n anodd ymgysylltu a gweithio â nhw, felly mae eu hamgylchiadau'n debygol o wella dros gyfnod hwy. Rydym yn disgwyl i'r ffigurau adlewyrchu hyn y dyfodol.

22. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n agos â'r Clystyrau i reoli nifer yr ymyriadau a'r cyfranogwyr i sicrhau ein bod yn gwneud gwir wahaniaeth i'n cymunedau mwyaf difreintiedig ac i sicrhau bod pobl yn well eu byd o ganlyniad i hynny.

23. Drwy sicrhau bod y rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn cydweddu'n well â'i gilydd, a thrwy sicrhau eu bod yn cydgysylltu'n gyson ac yn systematig, bydd modd lleihau dyblygu mewn ardaloedd

lle y mae'r rhaglenni'n gorgyffwrdd a sicrhau ein bod yn defnyddio adnoddau yn y ffordd orau bosibl. I sicrhau bod y rhaglenni'n cydweddu â'i gilydd, mae'n hollbwysig datblygu fframwaith canlyniadau cyfun ar gyfer y rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg ac rydym wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen, sy'n cynnwys rhanddeiliaid o bob rhan o Gymru, i sicrhau bod y fframwaith yn ei le erbyn mis Medi 2014.

24. Dwy o brif nodweddion y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yw ei bod yn cyflogi staff proffesiynol yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig ac yn darparu seilwaith y gall eraill ei ddefnyddio neu ychwanegu ato i sicrhau bod eu rhaglenni nhw'n cyrraedd y cymunedau hyn. Isod, ceir enghreifftiau o'r ffordd y mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi defnyddio'r dull hwn:

- Cyllid ar y cyd â'r Grant Amddifadedd Disgyblion i hybu dysgu fel teulu yn y blynyddoedd cynnar, i gynorthwyo pobl ifanc i lwyddo yn yr ysgol, ac i annog rhieni i ymgysylltu mwy ag addysg eu plant;
- Treialu archwiliadau iechyd i rai dros 50 oed mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i helpu i sicrhau bod y rheini a allai elwa fwyaf ar y cynllun yn manteisio arno;
- Gweithio gyda'r Ganolfan Byd Gwaith i ddarparu cynghorwyr sy'n rhoi cyngor i rieni am gyflogaeth mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf:
- Prosiectau a gefnogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru i weithio gyda phobl ifanc nad ydynt yn gweithio nac yn dysgu;
- Y fenter "GemauStryd" a gefnogir gan y Cyngor Chwaraeon ac eraill;
- Y rhaglen "Dewch Allan!" a gefnogir gan yr adran Tai ac Adfywio, y Loteri Fawr a Chyfoeth Naturiol Cymru;
- Twf Swyddi Cymru a'r Rhaglen Esgyn – gweler isod.

**Twf Swyddi Cymru**

25. Sefydlwyd prosiect Cymunedau yn Gyntaf Twf Swyddi Cymru ym mis Rhagfyr 2013. Mae'r ffigurau, fel yr oeddent ar 10 Mai 2014, yn dangos bod 258 o gyfleoedd gwaith wedi'u creu. O'u plith, cafodd 128 o'r cyfleoedd gwaith eu llenwi gan bobl ifanc sy'n byw mewn Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Mae 130 arall wrthi'n mynd drwy'r broses recriwtio.

**Y Rhaglen Esgyn**

26. Rydym hefyd wedi sefydlu'r Rhaglen Esgyn. Ei nod yw darparu 5,000 o gyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd gwaith i bobl o aelwydydd heb waith erbyn diwedd 2017. Bydd y Rhaglen Esgyn ar waith yn ardaloedd naw o'r Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf ar draws Cymru. Mae'r rhaglen ar waith yn llwyr mewn chwe ardal erbyn hyn. Disgwylir iddi fod ar waith yn llwyr yn y tair ardal sy'n weddill erbyn canol mis Mehefin. Mae staff y Rhaglen Esgyn eisoes wedi dechrau ar waith dwys gyda phobl o aelwydydd heb waith, ac mae dros 200 eisoes wedi achub ar gyfleoedd.

27. Gofynnwyd i holl adrannau Llywodraeth Cymru bennu cyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd gwaith a all gefnogi'r Rhaglen Esgyn. Rydym wrthi'n cadarnhau manylion cyfraniadau'r adrannau. Fodd bynnag, mae'r Prif Swyddog Meddygol eisoes wedi ysgrifennu at y Byrddau Iechyd Lleol i ddweud ei bod yn disgwyl i'r

GIG wneud cyfraniad sylweddol tuag at darged y rhaglen, gan ddarparu hyd at 1,000 o gyfleoedd hyfforddi a chyfleoedd gwaith.

**Diwygio lles**

28. Mae'r diwygiadau lles wedi dwysáu effaith y dirwasgiad, dirwasgiad a effeithiodd fwyaf ar ein cymunedau difreintiedig ac ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Er enghraifft, ym mis Ebrill 2014, cyhoeddodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru ymchwil i'r materion y mae menywod hŷn yn eu hwynebu yng Nghymru, gan gynnwys effaith y dirwasgiad.

29. Rydym wedi lleisio ein pryderon yn gyson ynghylch cwmpas, natur a hyd a lled y diwygiadau lles. Ni allwn wneud iawn am y newidiadau hyn a fydd yn effeithio fwyaf ar ein cymunedau mwyaf difreintiedig, ar deuluoedd heb waith, ar bobl anabl ac ar ofalwyr. Fodd bynnag, oherwydd ein bod yn deall effaith[1] y newidiadau hyn, gallwn dargedu ein gwaith i'r mannau hynny lle y bydd yn helpu fwyaf.

30. ran y portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi, mae hyn wedi ategu pwysigrwydd ein gwaith ym maes cynhwysiant digidol a chynhwysiant ariannol, yn ogystal â'r camau a ddisgrifir uchod o ran gwaith i bobl ifanc a chyfleoedd i aelwydydd heb waith.

**Cynhwysiant digidol**

31. Drwy ein Cynllun Cyflawni Cynhwysiant Digidol a'n rhaglen Cynhwysiant Digidol, Cymunedau 2.0, rydym yn gwneud cynnydd da o ran cael mwy o bobl i wella'u bywydau drwy ddefnyddio technoleg ddigidol. Mae ffigurau Arolwg Cenedlaethol Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2014, yn dangos gostyngiad yn nifer yr oedolion sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, a hynny o 24% y llynedd i 21% eleni.

32. Mae Cymunedau 2.0 wedi cynorthwyo dros 39,000 o unigolion i fentro ar-lein ac mae wedi cymell sefydliadau sy'n rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Age Cymru, RNIB a Shelter, i gefnogi'r agenda. Mae cynhwysiant digidol yn parhau i gyfrannu at y camau i roi'r strategaeth gyffredinol, Cymru Ddigidol, ar waith a byddwn yn parhau i'w integreiddio â ffrydiau eraill o waith digidol Llywodraeth Cymru, fel Cyflymu Cymru a'r strategaeth Digidol yn Gyntaf sy'n dod i'r amlwg. Ym mis Gorffennaf, byddaf i a'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon yn cyhoeddi'n ffurfiol fod y rhaglen Cymunedau 2.0 yn cael ei hestyn i'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghasnewydd, Caerdydd, Bro Morgannwg a Sir Fynwy.

**Cynhwysiant ariannol**

33. Mae'r camau i roi'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ar waith yn canolbwyntio ar bum thema, sef mynediad at wasanaethau ariannol prif ffrwd, darparu cynilion a chredyd fforddiadwy, gwella mynediad at gyngor ariannol a chyngor am ddyledion, gwella gallu pobl i drin a thrafod materion ariannol, a sicrhau bod pobl yn ennill yr incwm mwyaf posibl. Rydym eisoes yn cydweithio â nifer o wahanol bartneriaid ar y themâu hyn.

---

[1] http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/welfare-reform-in-wales/analysingreforms/?skip=1&lang=cy

34. Ar ôl i Lywodraeth y DU ddiddymu elfennau dewisol y Gronfa Gymdeithasol, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Gronfa Cymorth Dewisol. Yn 2013-14, gwnaeth y Gronfa dros 27,000 o ddyfarniadau gwerth cyfanswm o £7.2m i gynorthwyo pobl mewn argyfwng neu i'w helpu i adsefydlu yn y gymuned. Erbyn hyn, mae dros 400 o "bartneriaid" y Gronfa Cymorth Dewisol yn gallu helpu i gyfeirio pobl at y Gronfa i gael cymorth.

35. Ym mis Rhagfyr 2013, daeth y prosiect "Mynediad at Wasanaethau Ariannol drwy Undebau Credyd", a ariannwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a WEFO, i ben. Darparwyd bron i £4 miliwn i gefnogi'r prosiect ers mis Hydref 2010. Estynnwyd y prosiect tan fis Mawrth 2014 gan ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru'n unig. Aeth tu hwnt i'w dargedau, gan alluogi 33,000 o bobl a oedd wedi'u hallgáu'n ariannol i ddefnyddio gwasanaethau ariannol. Amcangyfrifir bod dros 78,000 o bobl bellach yn aelodau o Undebau Credyd yng Nghymru.

36. Ochr yn ochr â Phrosiect yr Undebau Credyd, dyfarnwyd £1.2 miliwn yn ychwanegol i'r Undebau Credyd ym mis Ionawr 2014 i'w helpu i fod yn gynaliadwy ac i gyrraedd mwy o bobl mewn cymunedau. Ym mis Mawrth 2014, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ragor o gyllid gwerth £1.9m ar gyfer yr Undebau Credyd. Caiff ei ddarparu tan fis Mawrth 2017, gan leihau'n raddol.

37. Ar 17 Gorffennaf 2014, cynhelir Cynhadledd Undebau Credyd i adeiladu ar y cydweithio yn sgil y cyllid cydweithredu gwerth £1.2m. Bydd yn gyfle i ni fyfyrio ar y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ei darparu a mynd ati ar y cyd i ystyried yr hyn sydd ei angen o hyn ymlaen.

38. Rydym hefyd yn sicrhau bod cymorth ymarferol ar gael ar ffurf gwasanaethau cynghori rheng flaen i helpu pobl a all fod yn wynebu newidiadau i'w budd-daliadau neu bobl sy'n ei chael yn anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Mae £1 miliwn o arian ychwanegol ar gael yn 2014-15 i sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau cynghori am ddim ar faterion sy'n ymwneud â hawliau lles, tai, rheoli dyledion ac arian, a gwahaniaethu. Mae hyn yn ychwanegol at y cymorth yr ydym eisoes yn ei ddarparu drwy'r cynllun Gwell Cyngor: Gwell Bywydau o dan ofal Cyngor ar Bopeth Cymru a'r prosiect canlyniadau a rennir sy'n darparu cyngor allgymorth am ddyledion a budd-daliadau lles yn ardaloedd 36 o'r Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf ar draws Cymru. Yn 2013-14, cafodd dros 20,000 o gleientiaid eu gweld o dan y cynllun Gwell Cyngor: Gwell Bywydau yn unig, gan eu galluogi i hawlio dros £16 miliwn o fudd-daliadau ychwanegol hyd at fis Rhagfyr 2013.

39. Yn ogystal ag arian i gynorthwyo gwasanaethau cynghori rheng flaen, roedd adroddiad yr Adolygiad o Wasanaethau Cynghori a gyhoeddwyd yn 2013 yn nodi bod angen mynd ati mewn modd mwy strategol a chydgysylltiedig i gynllunio ac i ddarparu gwasanaethau cynghori yng Nghymru. Un o'm blaenoriaethau eleni yw mynd ati i sefydlu Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol i hwyluso dull strategol a chydweithredol o'r fath. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio hybu mwy o gysondeb o ran ansawdd y cyngor a ddarperir gan y sector gwirfoddol a dielw.

**Remploy**

40. Mae Gweinidogion Cymru wedi gwrthwynebu penderfyniad Llywodraeth y DU i gau holl ffatrïoedd Remploy. Bu i ni lobïo Llywodraeth y DU i ddatganoli’r cyfrifoldeb drostynt yng Nghymru. Gwrthodwyd gwneud hynny ac aeth Llywodraeth Cymru ati i sicrhau bod modd i weithwyr Remploy yng Nghymru gael cymorth drwy Grant Cymorth i Gyflogwyr Remploy.

41. Hyd yma, mae Grant Cymorth Cyflogwyr Llywodraeth Cymru, a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2012, wedi darparu swyddi newydd i dros 200 (neu tua ddau draean) o gyn-gyflogeion anabl Remploy yng Nghymru. Mae llawer mwy o swyddi wedi’u cymeradwyo ac maent ar gael o hyd. Rydym wedi estyn y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau gan ddarpar gyflogwyr i gael Grant Cymorth Cyflogwyr tan ddiwedd mis Medi 2014.

**Cydraddoldeb**

42. Mae llawer o’r rheini sy’n byw mewn tlodi ar hyd a lled Cymru hefyd yn wynebu gwahaniaethu am lu o wahanol resymau. Rydym wedi ymrwymo i roi terfyn ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon, yn ogystal â hybu cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy’n rhannu nodwedd warchodedig a’r rheini nad ydynt yn ei rhannu.

43. Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf ym Mhrydain i gyflwyno dyletswyddau penodol o ran cydraddoldeb i ategu’r camau i roi dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, a bennir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ar waith yn yr awdurdodau cyhoeddus a restrir yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Ymhlith y dyletswyddau penodol o ran cydraddoldeb mae dyletswydd arnom i bennu amcanion cydraddoldeb, i baratoi adroddiad blynyddol am y cynnydd a wnaed, i fynd i’r afael â gwahaniaethau o ran tâl, i ymgysylltu â phobl a sefydliadau, ac i gyflawni Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae pob un o adrannau Llywodraeth Cymru’n gyfrifol am gyflawni Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb i sicrhau bod y gwaith yr ydym yn ei wneud yn achub ar bob cyfle i hybu cydraddoldeb, i fynd i’r afael â gwahaniaethu, i annog cydlyniant cymunedol ac i gyflawni canlyniadau cynhwysol i holl ddinasyddion Cymru.

44. Yn 2010-11, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei hasesiad cyntaf o effaith y gyllideb ar gydraddoldeb, ac mae wedi canolbwyntio ar ei wella o flwyddyn i flwyddyn. Pan fyddwn yn asesu effaith Cyllideb Ddrafft 2015-16, byddwn yn parhau i ystyried effaith ein penderfyniadau gwario ar feysydd eraill, gan gynnwys hawliau plant ac anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae’r rhain yn dal i fod yn ddyddiau cynnar o ran datblygu dull integredig, ond ein dyhead yw darparu asesiad manylach a mwy cynhwysol o effaith ein cynlluniau gwario mewn blynyddoedd i ddod.

45. Cyhoeddwyd ein Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol ym mis Medi 2013. Mae’r Fframwaith yn ymdrin ag anabledd mewn modd strategol. Mae’n nodi’r rhwystrau sy’n atal pobl rhag byw’n annibynnol, a’i nod yw mynd i’r afael â’r rhwystrau hynny i greu cymdeithas gynhwysol sy’n galluogi pobl i fyw’n annibynnol. Lluniwyd y Fframwaith ar y cyd gan Grŵp Llywio Cenedlaethol o randdeiliaid, a hynny ar ôl trafod â phobl anabl a’r sefydliadau sy’n eu cynrychioli

ar hyd a lled Cymru. Rydym yn hyderus, felly, ein bod yn mynd i'r afael â'r materion sydd bwysicaf iddyn nhw.

46. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod cymunedau diogel ar gael i bobl fyw ynddynt. Ym mis Mai 2014, bu i mi lansio 'Mynd i'r Afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu' sy'n nodi sut y byddwn yn mynd i'r afael â'r casineb a'r rhagfarn y mae pobl yn eu hwynebu oherwydd eu nodweddion gwarchodedig, sef hil, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, ac oedran. Ochr yn ochr â'r Fframwaith, bu i mi gyhoeddi rhaglen gyflawni cydlyniant cymunedol newydd a chadarnhau dwy flynedd o arian ychwanegol ar gyfer Cydgysylltwyr Cydlyniant Cymunedol hyd at fis Ebrill 2016.

47. Rydym wedi glynu at ein hymrwymiad i fynd i'r afael ag anghenion llety'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru. Ar 9 Ebrill 2014 yn Aberhonddu, agorwyd y safle awdurdod lleol newydd cyntaf ers 1997 yn swyddogol. Yn ogystal, cafodd chwe safle awdurdod lleol arall eu hadnewyddu yn 2013-14. Ers 2007-08, rydym wedi helpu i ariannu gwaith i adnewyddu 44 prosiect ar draws nifer o safleoedd awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae Bil Tai (Cymru), sydd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd, hefyd yn ceisio mynd i'r afael â phrinder llety i'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru drwy gynnig cyflwyno Dyletswydd Statudol newydd ar awdurdodau lleol i ddatblygu safleoedd newydd i Sipsiwn a Theithwyr lle y mae angen nad yw'n cael ei ddiwallu.

**Amrywiaeth mewn Penodiadau Cyhoeddus**

48. Ddechrau 2013, Ysgrifennodd y Gweinidogion sy'n gyfrifol am benodiadau cyhoeddus at Gadeiryddion byrddau allweddol y sector cyhoeddus i ofyn iddynt weithredu i gynyddu nifer y menywod a'r bobl o grwpiau eraill nad oes ganddynt gynrychiolaeth ddigonol sy'n cael eu penodi i swyddi cyhoeddus. Cymerwyd camau eraill drwy gydol 2013 i wella amrywiaeth mewn penodiadau cyhoeddus. Yn eu plith roedd:

- tynnu sylw cyrff cyhoeddus ac is-adrannau noddi at astudiaeth achos Chwaraeon Cymru a rhannu'r arferion da;
- seminar i Gadeiryddion Byrddau'r Sector Cyhoeddus;
- gweithdy i is-adrannau noddi.

49. Yn ystod yr hydref 2013, gofynnais i'r Gweinidogion ysgrifennu at y Cadeiryddion eto i ategu eu hymrwymiad i'r agenda hon ac i annog y Cadeiryddion a'r Byrddau i weithredu i wella amrywiaeth. Cafodd deunyddiau a chanllawiau arferion da eu hamgáu gyda'r llythyrau ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

50. Disgwylir i'r Cadeiryddion ddarparu adroddiadau cynnydd erbyn 30 Mehefin 2014. Cynhelir seminar ar gyfer Cadeiryddion Byrddau'r Sector Cyhoeddus ar 13 Tachwedd 2014 yn Stadiwm SWALEC yng Nghaerdydd i rannu arferion da.

**Hawliau plant**

51. Ym mis Mai 2014, gosodais Gynllun Hawliau Plant diwygiedig gerbron y Cynulliad. Mae'n adlewyrchu'r ddyletswydd ar Weinidogion Cymru, o dan Fesur Hawliau

Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn pan fyddant yn cyflawni'u swyddogaethau.

52. Yn fuan, byddaf yn cyhoeddi mwy o fanylion am adolygiad o Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, sef adolygiad y mae'r Comisiynydd presennol, Keith Towler, wedi galw amdano a'i groesawu.

**Y Trydydd Sector**

53. Y berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'r trydydd sector yw un o nodweddion neilltuol ein setliad datganoli. Mae hefyd yn hollbwysig bod gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio'n agos â'r trydydd sector i fynd i'r afael â'r her sy'n gysylltiedig ag angen cynyddol a gostyngiad yng nghyllid y sector cyhoeddus. Ym mis Ionawr 2014, roeddwn yn falch o gyhoeddi Cynllun Trydydd Sector diwygiedig. Fe'i lluniwyd ar y cyd â chynrychiolwyr y sector. Mae'n nodi'r prif egwyddorion sy'n sylfaen i'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio â'r trydydd sector, ac mae'n cynnwys Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.

54. Ar yr un pryd, cyhoeddais fy mod yn bwriadu symud tuag at ddull mwy rhanbarthol o weithio o ran seilwaith y trydydd sector a sicrhau bod y dulliau o ymgysylltu â'r sector, fel Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a chyfarfodydd Gweinidogion â'r sector, yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Rwyf hefyd wedi annog yr awdurdodau lleol, y byrddau iechyd a gwasanaethau cyhoeddus eraill i roi sylw i'r Cynllun a'r Cod Ymarfer, a hynny er mwyn gosod sylfaen ar gyfer datblygu a chryfhau'r Compactau Lleol â'r Trydydd Sector.

**Cenedlaethau'r dyfodol**

55. Mae Cymru'n wynebu nifer o heriau hirdymor cymhleth. Rhaid i ni eu cydnabod a mynd i'r afael â nhw er lles Cymru. Rydym wedi etifeddu nifer o'r heriau hyn, ond ceir cydnabyddiaeth gynyddol bod angen gwneud mwy i sicrhau nad yw cenedlaethau heddiw'n gadael yr heriau er mwyn i genedlaethau'r dyfodol ymdrin â nhw.

56. Mae'r Bil hwn yn torri tir newydd. Ei nod yw sicrhau bod ein cenhedlaeth ni'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros wella lles Cymru drwy greu Cymru sy'n gynaliadwy yn awr a Chymru a fydd yn gynaliadwy am ddegawdau i ddod. Mae ein gwedd Gymreig ar ddatblygu cynaliadwy yn pwysleisio lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol pobl a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol.

57. Mae'r Bil yn gyfle unigryw i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus penodedig yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r prif heriau sy'n wynebu cenedlaethau heddiw a chenedlaethau'r dyfodol. Gofynnais i'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy, Peter Davies, dreialu sgwrs genedlaethol am 'Y Gymru a Garem' i drin a thrafod y wlad y carem ei chael yn 2050. Lansiwyd y cam cyntaf ym mis Chwefror a thros y misoedd diwethaf cafodd 'Eiriolwyr y Dyfodol' eu recriwtio ar hyd a lled Cymru i annog pobl a chymunedau i gymryd rhan yn y sgwrs am ddyfodol hirdymor Cymru, a hynny er mwyn cyfrannu at adroddiad interim ar ran cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru. Fe'i cyhoeddir maes o law. Bydd y Bil yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau cenedliadol y mae Cymru'n eu hwynebu mewn modd mwy unedig ac integredig drwy sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus penodedig yn cydweithio i gyflawni'r

nodau a bennir gan y Bil. Rydym yn disgwyl y bydd modd i ni gyflwyno Bil Cenedlaethau'r Dyfodol (teitl dros dro) i'r Cynulliad cyn toriad yr haf.

**Datblygu cynaliadwy**

58. Fel Llywodraeth, mae ein holl bolisïau a rhaglenni'n adlewyrchu ein hymrwymiad i gynaliadwyedd a thegwch er mwyn i ni sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw ein prif egwyddor drefniadol. Mae hyn yn ganolog i waith y portffolio Cymunedau a Threchu Tlodi. Nod ein rhaglenni a'n polisïau yw cyflwyno newidiadau yn awr a fydd yn dal i gael dylanwad yn y dyfodol a sicrhau bod pobl a chymunedau Cymru yn y sefyllfa orau i fynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaenau. Disgwylir i ni osod Adroddiad Blynyddol Datblygu Cynaliadwy 2013-14 ar 23 Mehefin.

**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Tai ac Adfywio**
**Minister for Housing and Regeneration**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf / Our ref LF/CS/0471/14:

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

09 Mehefin 2014

Annwyl Jocelyn

**Bil Tai (Cymru) – Goblygiadau ariannol gwelliannau'r Llywodraeth**

Yn fy llythyr dyddiedig 19 Chwefror 2014 a anfonais yn ateb i'ch llythyr dyddiedig 7 Chwefror, addewais y byddwn yn ysgrifennu atoch eilwaith, i amlinellu goblygiadau ariannol y gwelliannau i Fil Tai (Cymru) pan gyflwynid hwy. Fel y gwyddoch, mae'r holl welliannau Cam 2 bellach wedi eu cyflwyno, a'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol wedi pleidleisio arnynt. Rhai technegol eu natur yn bennaf, heb unrhyw oblygiadau ariannol, oedd nifer fawr o'r gwelliannau Cam 2.

Rwyf wedi nodi isod y gwelliannau Cam 2 a gytunwyd sydd â goblygiadau ariannol iddynt, ynghyd ag esboniad byr o'u heffaith. Byddaf yn ysgrifennu atoch eto pan gyflwynir gwelliannau Cam 3.

**<u>Y Sector Rhentu Preifat</u>**

**Gwelliant 288 – Gorchmynion Ad-dalu Rhent a 290 Gorchmynion Ad-dalu Rhent: darpariaeth bellach**

Mae'r gwelliannau hyn yn darparu y caiff awdurdodau tai lleol wneud cais i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl am Orchmynion Ad-dalu Rhent mewn amgylchiadau pan fo awdurdod o'r farn bod troseddau penodol yn cael eu cyflawni o dan Ran 1. Bydd y gwelliant yn galluogi awdurdod trwyddedu, awdurdod tai lleol neu denant (gan ddibynnu ar yr amgylchiadau) i ofyn i Dribiwnlys am orchymyn i ad-dalu rhent ac unrhyw arian arall sy'n gysylltiedig â deiliadaeth yr adeilad. Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn sydd mewn deddfwriaeth dai arall.

Mae'r goblygiadau ariannol i'r Tribiwnlys o ganlyniad i hyn yn debygol o fod yn fach iawn, ac yn annhebygol o ychwanegu llawer at y goblygiadau ariannol a nodir eisoes yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Er bod hyn yn gosod cyfrifoldeb ychwanegol ar y Tribiwnlys Eiddo Preswyl, nid ydym yn rhagweld y caiff Gorchmynion Atal Rhent eu defnyddio'n rhy aml. disgwyliwn y cânt eu defnyddio yn hytrach pan fo camau gorfodi eraill wedi methu, neu pan ystyrir hwy'n amhriodol. Yn ogystal, trwy gyflwyno'r mesurau hyn yn ystod y cam hwn, bydd modd delio â holl gyfrifoldebau ychwanegol y Tribiwnlys Eiddo Preswyl o fewn yr un cyrsiau hyfforddi (sydd wedi'u nodi eisoes) a gwneud unrhyw newidiadau yn y ffurflenni etc yr un pryd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA
English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk



*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Bydd angen hefyd diwygio Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012 yng ngoleuni'r Bil (sydd wedi'u nodi eisoes) a chaiff ffioedd am orchmynion ad-dalu rhent eu nodi yn y Rheoliadau diwygio; bydd hynny'n caniatáu i'r Tribiwnlys godi ffioedd i adennill ei gostau.

Yn ychwanegol, pan gyllidir y taliadau am rent neu am wasanaethau gan fudd-dal tai neu gan ddyfarniadau perthnasol o gredyd cynhwysol, caiff y awdurdod trwyddedu neu awdurdod tai lleol wneud cais am i'r taliadau hynny gael eu had-dalu i'r awdurdod ei hunan. Bydd pŵer gan Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn rheoliadau ynglŷn â'r modd y trinnir derbyniadau o'r fath.

**Gwelliant 292 – Hysbysiadau cosb benodedig:**

Mae'r gwelliant hwn yn adlewyrchu argymhelliad un gan y Pwyllgor Cyllid ac argymhelliad wyth yn yr adroddiad ar ystyriaeth o'r Bil gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

Mae'r gwelliant wedi mewnosod adran newydd yn y Bil sy'n darparu y caiff awdurdod trwyddedu, ac o bosibl awdurdodau tai lleol, ddyroddi hysbysiadau cosb benodedig os credir bod trosedd honedig o dan Ran 1 o'r Bil wedi ei chyflawni. Bydd hyn yn cynnwys yr amgylchiad o landlord yn gosod eiddo rhentu ac yntau heb gofrestru; neu berson yn rheoli eiddo rhentu heb drwydded; neu fethiant i ddiweddaru gwybodaeth fel sy'n ofynnol o dan y broses drwyddedu.

Effaith y gwelliant yw galluogi'r awdurdod trwyddedu a'r awdurdodau tai lleol i gymryd camau gorfodi ac annog cydymffurfiaeth â gofynion Rhan 1 o'r Bil heb ddwyn achos llys, pan fo person yn talu'r gosb. Mae'r gwelliant yn caniatáu i'r awdurdod trwyddedu neu'r awdurdod tai lleol gadw'r dirwyon a delir o ganlyniad i'r hysbysiadau cosb benodedig, ac yn pennu bod yr arian a godir i gael ei ddefnyddio at y diben o orfodi Rhan 1 o'r Bil.

Bydd cyflwyno'r hysbysiadau cosb benodedig hefyd yn lliniaru'r pryderon a godwyd o ganlyniad i benderfyniad y llys yn achos *Hemming v. Cyngor Dinas Westminster*, a fyddai'n rhwystro defnyddio'r ffi trwyddedu a chofrestru ar gyfer camau gorfodi yn erbyn unigolion sydd heb drwydded neu heb gofrestru.

Y cosbau fydd naill ai £150 neu £250, yn ôl y math o drosedd. Bydd modd i Weinidogion Cymru ddiwygio lefel y dirwyon, trwy orchymyn a gymeradwyir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**<u>Digartrefedd</u>**

**Gwelliant 33: Pŵer i ddiwygio neu ddirymu darpariaethau ynglŷn ag angen blaenoriaethol am lety**

Mae'r gwelliant hwn yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ychwanegu, diwygio neu ddileu (drwy orchymyn) categorïau o bersonau sydd ag angen blaenoriaethol. Gwnaed hyn ar gais y Pwyllgor a'r rhanddeiliaid, a bydd y gwelliant yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddiddymu angen blaenoriaethol yn llwyr pan fo hynny'n briodol. Credaf fod y Bil yn gam allweddol ymlaen tuag at gyrraedd y nod hwn.

Ni fydd y gwelliant yn cael effaith ariannol ar unwaith, ond bydd yr effaith ar awdurdodau lleol a chost budd-daliadau i'w theimlo os a phan ychwanegir / diwygir categorïau angen blaenoriaethol yn y dyfodol, pe rhoddid diogelwch ychwanegol, neu fynediad i wasanaethau megis llety argyfwng, i ragor o grwpiau. Byddai unrhyw orchymyn o'r fath a wneir o dan y pwerau hyn yn destun craffu deddfwriaethol llawn gan y Cynulliad yn ogystal ag Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**Treth Gyngor**

**Gwelliant 66: Cynyddu'r premiwm treth gyngor y caniateir i awdurdodau tai lleol ei godi ar anheddau gwag**

Diben y gwelliant hwn yw cynyddu swm y premiwm treth gyngor y caiff awdurdodau lleol ei godi yn eu hardal am eiddo yn y categori o anheddau a fu'n wag am dymor hir. Newidir y premiwm sefydlog 50 y cant blaenorol yn uchafswm premiwm o 100 y cant. Bydd hyn yn caniatáu i awdurdodau lleol benderfynu cyfradd y premiwm a godir yn eu hardal ar sail yr amgylchiadau lleol. Ceir codi unrhyw gyfradd rhwng dim a 100% o'r dreth gyngor safonol a godir. Gwneir hyn yn ôl disgresiwn yr awdurdod lleol

Nid ydym yn rhagweld y bydd awdurdodau lleol yn wynebu unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i'r gwelliant hwn ac eithrio'r rhai a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol pan gyflwynwyd y Bil gyntaf. Bydd goblygiadau ariannol y gwelliant hwn yn cael eu diwallu allan o'r dyraniadau adrannol presennol

Bydd effaith y gwelliant hwn ar berchnogion eiddo yn dibynnu ar nifer yr awdurdodau a fydd yn dewis codi premiwm ychwanegol ar gartrefi gwag a pha awdurdodau fydd y rheini; ar lefel y premiwm a osodir; ac ar y cyfraddau casglu treth gyngor. Fodd bynnag, pe bai pob awdurdod lleol yn dewis codi premiwm treth gyngor o 100% ar gartrefi gwag, heb unrhyw esemptiadau, a phe bai'r perchnogion yn cadw'r holl eiddo yn wag, byddai uchafswm y dreth ychwanegol a godid ar berchnogion eiddo oddeutu £28.8 miliwn (ar sail y taliad treth Band D cyfartalog ar gyfer 2013-14 o £1,226 a chyfradd gasglu o 97% (sef y gyfradd gyfredol)). Mae'n annhebygol, fodd bynnag, y gellid cyrraedd cyfradd gasglu o 97% yn achos anheddau a fu'n wag am dymor hir.

**Gwelliant 69: Cynyddu'r premiwm treth gyngor y caniateir i awdurdodau tai lleol ei godi ar anheddau a feddiennir yn gyfnodol**

Diben y gwelliant hwn yw diwygio Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, trwy fewnosod adran 12B newydd yn y Ddeddf honno, a fydd yn caniatáu i awdurdodau lleol godi premiwm o hyd at 100 y cant ar y dreth gyngor ar anheddau a feddiennir yn gyfnodol (ail gartrefi).

Rhaid i bob awdurdod lleol unigol wneud penderfyniad ynghylch codi premiwm ar y dreth gyngor ar ail gartrefi, ac ni chaiff newid y penderfyniad hwnnw o fewn y flwyddyn. Bydd gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud rheoliadau, o ddilyn y weithdrefn negyddol, a fydd yn pennu pa ddosbarthiadau o anheddau a fydd yn esempt rhag y premiwm.

Disgwylir mai bach iawn fydd y costau ychwanegol a dynnir gan awdurdodau lleol o ganlyniad i'r gwelliant hwn gan fod ganddynt eisoes y feddalwedd a'r systemau casglu ac adrodd angenrheidiol. Yn ychwanegol, mae'n debygol eu bod eisoes yn casglu'r dreth gyngor safonol ar yr ail gartrefi yn eu hardal, a dylai gweinyddu'r premiwm hwn, felly, fod yn llai costus i'r awdurdodau lleol, o gymharu â'r premiwm treth gyngor ar eiddo gwag. Fodd bynnag, os bydd awdurdod yn dewis codi premiwm treth Gyngor ychwanegol ar ail gartrefi, bydd hynny'n ysgogi gofynion o ran monitro a gorfodi casglu'r dreth gyngor. Amcangyfrifir y gallai'r gost fod yn gyfwerth ag un aelod o'r staff, sef oddeutu £30,000 ym mhob awdurdod lleol – ond bydd hynny'n dibynnu ar nifer yr ail gartrefi yn ardal yr awdurdod.

Rhagwelir y gellid cynnwys y costau hyn o fewn y costau a dynnid gan awdurdodau lleol a fyddai'n codi premiwm treth gyngor ar anheddau a fu'n wag am dymor hir. Pe digwyddai fod awdurdod lleol yn dewis peidio â chodi premiwm teth gyngor ar eiddo a fu'n wag am dymor hir, ond yn dewis codi premiwm mewn perthynas ag ail gartrefi, ni fyddai'r costau i'r awdurdod lleol yn ddim mwy na'r costau mewn perthynas ag eiddo a fu'n wag am dymor hir, fel y'u nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol pan gyflwynwyd y Bil gyntaf.

Mater i'r awdurdodau lleol fyddai gwrthbwyso'r costau ychwanegol y gellid eu hwynebu o ganlyniad i godi'r premiwm, yn erbyn yr incwm treth gyngor ychwanegol a enillid, cyn penderfynu a ddylid codi premiwm ychwanegol ar ail gartrefi ai peidio.

Bydd effaith y gwelliant hwn ar berchnogion eiddo yn dibynnu ar nifer yr awdurdodau  a fydd dewis codi premiwm ychwanegol ar ail gartrefi a pha awdurdodau fydd y rheini; ar lefel y premiwm a godir; ac ar y cyfraddau casglu treth gyngor.

Roedd arolwg gan CLlLC yn 2011 yn awgrymu bod oddeutu 23,000 o ail gartrefi yng Nghymru, er bod y ffigur hwnnw'n cynnwys rhai anheddau gwag ac eiddo hunan-arlwyo. Ni ellir dyfynnu unrhyw ffigur pendant ar hyn o bryd, gan fod nifer o wahanol ffynonellau yn darparu data am ail gartrefi yng Nghymru, y disgowntiau treth gyngor a ganiateir ar gyfer ail gartrefi yn fater a adewir i ddisgresiwn yr awdurdodau lleol, a'r datganiadau treth gyngor a gyflwynir i Lywodraeth Cymru hefyd yn anghyflawn.   Fodd bynnag, pe bai  pob awdurdod lleol yn dewis codi premiwm treth gyngor o 100% ar ail gartrefi heb esemptiadau a'r perchnogion yn cadw'r eiddo fel ail gartrefi, byddai uchafswm y dreth ychwanegol a godid ar berchnogion eiddo oddeutu £27.4 miliwn (ar sail y taliad treth Band D cyfartalog ar gyfer 2013-14 o £1,226 a chyfradd gasglu o 97% (sef y gyfradd gyfredol)).  Fel yn achos cartrefi a fu'n wag am dymor hir, mae'n annhebygol y gellid cyrraedd y gyfradd gasglu o 97%, er bod y cyfraddau ar gyfer eiddo a feddiennir yn tueddu i fod yn uwch nag ar gyfer eiddo gwag.

Mae niferoedd yr ail gartrefi yn amrywio yn ôl yr ardal, ac yn arbennig o uchel yn y gogledd-orllewin, y de-orllewin a chanolbarth Cymru. Mae'r data o Gyfrifiad 2001, ynglŷn â'r bobl sydd ag ail gartref yng Nghymru a ddefnyddir at ddibenion gwyliau, yn dangos bod oddeutu 80% o'r ail gartrefi hynny yng Ngwynedd, Ynys Môn, Conwy, Powys, Ceredigion neu Sir Benfro. Pe bai'r chwe awdurdod hynny yn cyflwyno premiwm treth gyngor o 100% heb ddim esemptiadau, byddai uchafswm y dreth ychwanegol a godid ar berchnogion eiddo, yn ôl amcangyfrif CLlLC, oddeutu £21.9 miliwn (mae hyn eto'n seiliedig ar y taliad treth Band D cyfartalog ar gyfer 2013-14 a'r gyfradd gasglu gyfredol o 97%).  Er mai cost fyddai hyn i berchnogion yr eiddo, byddai cynnydd cyfatebol yn refeniw treth gyngor yr awdurdodau lleol perthnasol.

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o fudd ichi..

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Christine Chapman, Cadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Minister for Housing and Regeneration